

## ATODIAD 1

<b>ENW'R PWYLLGOR CRAFFU</b>	Pwyllgor Craffu Cymunedau (Anffurfiol)
<b>DYDDIAD Y CYFARFOD</b>	04 Ebrill 2019
<b>TEITL</b>	Adolygiad Strategol o'r Gwasanaeth Cludiant Cyhoeddus (Cam Ymgysylltu ac Ymgynghori)
<b>AWDUR</b>	Dafydd Wyn Williams, Pennaeth Adran Amgylchedd
<b>AELOD CABINET</b>	Y Cynghorydd Dafydd Meurig
<b>PWRPAS</b>	Diweddaru'r Pwyllgor am y cynnydd hyd yma

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r maes cludiant cyhoeddus wastad wedi bod yn heriol. Fodd bynnag, mae'n deg i ddweud bod y blynyddoedd diwethaf yn enwedig wedi bod yn arbennig o heriol yng Ngwynedd. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i:

- Cwmnïau'n colli eu trwyddedau gweithredu ac yn mynd allan o fusnes
- Cwmnïau yn wynebu cyhuddiadau troseddol
- Cwmnïau yn mynd i drafferthion ariannol
- Prinder o gwmnïau bws o ansawdd i gynnig cystadleuaeth
- Cynnydd mewn prisiau am wasanaethau
- Lleihad yn amllder gwasanaethau
- Pryderon am ddiogelwch ac ansawdd gwasanaethau
- Anfodlonrwydd gan ddefnyddwyr a chymunedau

1.2 I'w roi mewn cyd-destun, maer' Cyngor wedi wynebu o leiaf bedwar argyfwng mawr dros y pedair blynedd diwethaf, sef:

- Digwyddiad Bws Padarn yn 2014 pan ddarganfuwyd fod y cwmni wedi twyllo'r Cyngor allan o dros £800,000.
- Digwyddiad GHA yn 2016 pan aeth y cwmni i anawsterau ariannol.
- Digwyddiad Express Motors yn 2017 pan dynnodd y Comisiynydd Traffig trwyddedau gweithredu'r cwmni oddi wrthynt. Yn fwy diweddar, bu i bedwar o gyfarwyddwyr y cwmni gael eu dyfarnu'n euog o dwyll ac o hawlio arian parod ar gyfer 88,000 o deithiau na ddigwyddodd.
- Digwyddiad Taxis Gwynedd yn 2018 pan dynnodd y Comisiynydd Traffig trwyddedau gweithredu'r cwmni oddi wrthynt.

1.3 Mae'r Adran wedi rheoli'r gwahanol argyfyngau dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf trwy resymoli ac ail-dendro'r gwasanaethau. Fodd bynnag, o ganlyniad i ddyfodol ansicr rhai o'r cwmnïau bysiau; bod nifer y cwmnïau bws cymwys yn lleihau; y bygythiadau cynyddol i gyllidebau llywodraeth leol, a'r ffaith fod llawer o'n llwybrau bws sefydledig yn bodoli oherwydd eu bod wedi bod yno erioed ond, mewn gwirionedd, nid ydynt bellach yn diwallu'r angen, penderfynwyd yng nghanol 2018 i gynnal adolygiad strategol o'r gwasanaeth trafndiaeth gyhoeddus yng Ngwynedd.

# ATODIAD 1

## 2. NOD YR ADOLYGIAD CLUDIANT CYHOEDDUS A'R DULL O WEITHREDU

- 2.1 Bydd yr adolygiad yn ystyried y rhwydwaith cludiant cyhoeddus presennol ac yn asesu os yw'n addas at y diben gyda'r bwriad o sefydlu rhwydwaith diogel, dibynadwy a chost effeithiol i'r dyfodol.
- 2.2 Cyflawnir hyn drwy ymgymryd â'r 7 cam canlynol:
- 1, Canfod beth yw'r angen gan y cyhoedd; nid yn unig beth yw'r galw gan y rhai sy'n defnyddio trafndiaeth gyhoeddus ar hyn o bryd ond hefyd beth fyddai'n annog aelodau eraill o'r cyhoedd i ddefnyddio trafndiaeth gyhoeddus. Gwneir hyn drwy ymgysylltu ac ymgynghori,
  - 2, Ar ôl sefydlu'r angen, bydd y rhwydwaith presennol yn cael ei archwilio i sicrhau y gall ddiwallu anghenion y cyhoedd sy'n teithio. Byddai hyn yn cynnwys gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r rhwydwaith,
  - 3, Ar ôl sefydlu'r rhwydwaith, bydd angen ystyried pa fath o ddarpariaeth fydd y mwyaf diogel, mwyaf dibynadwy a chost effeithiol. Dyma lle bydd angen i ni dynnu ar brofiad awdurdodau eraill ac arbenigwyr i werthuso opsiynau,
  - 4, Ymgynghori â chymunedau i rannu canlyniad yr adolygiad a'r amserlen ar gyfer sefydlu'r rhwydwaith newydd cyn cychwyn ar y broses dendro,
  - 5, Cychwyn y broses dendro,
  - 6, Os yw'r arian yn annigonol i ddiwallu'r angen, yna bydd angen blaenoriaethu'r llwybrau bws yn seiliedig ar ddadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (Social Return on Investment),
  - 7, Cychwyn y gwasanaeth newydd.
- 2.3 Bydd yr adolygiad hefyd yn rhoi cyfle i'r Cyngor dreialu ffyrdd amgen o ddiwallu anghenion trafndiaeth drwy e.e. defnyddio dulliau trafndiaeth gymunedol, gwasanaethau ar-alw, bysiau mini, tacsis ayyb.
- 2.4 Mae'n debyg y bydd yn cymryd hyd at fis Ebrill 2020 i gwblhau'r adolygiad a gwireddu'r canfyddiadau. Erbyn hynny, disgwylir y bydd yr adolygiad wedi galluogi'r Adran Amgylchedd i resymoli'r gwasanaeth presennol a, drwy hyn, darparu gwasanaeth bws sy'n diwallu anghenion ein trigolion yn ogystal â dod ag arbedion a fydd yn alinio'r costau gweithredu gyda'r gyllideb gyfredol.

## ATODIAD 1

### 3. AMSERLEN

3.1 Paratowyd amserlen ar gyfer ymgymryd â'r adolygiad fel a ganlyn:

Cam	Gweithred	Cyfnod	Pwy sy'n gweithredu
1	Ymgynghori gyda chynghorau cymuned	Chwefror i Ebrill 2019	Aelodau o'r fîm
1	Ymgynghori a'r teithwyr ar ffurf holiadur	Ionawr i Ebrill 2019	Aelodau o'r fîm
1	Ymgynghori a gweithredwyr	Chwefror i Fawrth 2019	Y Pennaeth, Uwch Reolwr a'r Rheolwr
1	Diwrnodau agored	Ebrill 2019	Aelodau o'r fîm
1	Casglu'r wybodaeth	Mai i Fehefin 2019	Prifysgol Bangor
1	Asesu/cyflwyno'r darganfyddiadau/penderfyniadau i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet	Gorffennaf 2019	Y Pennaeth
2, 3 & 4	Paratoi rhwydwaith newydd	Awst 2019	Aelodau o'r fîm
5	Proses Tendro	Hydref 2019	Aelodau o'r fîm
6	Ymarferiad dadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau i flaenoriaethu'r llwybrau bws	Tachwedd 2019 i Ionawr 2020	Prifysgol Bangor
6	Hysbysu Comisiynydd Traffic	56 diwrnod	Gweithredwyr
7	Cychwyn y gwasanaeth newydd	Ebrill 2020	

3.2 Bu i'r Adran gychwyn y cam cyntaf, sef ymgysylltu ac ymgynghori, diwedd mis Ionawr eleni.

### 4. YMGYSYLLTU AC YMGYNGHORI

4.1 I hwyluso'r broses o ddeall anghenion ein trigolion, maer' Adran wedi gweithio gyda'r Ganolfan Economeg, Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau ym Mhrifysgol Bangor i ddarparu holiadur i deithwyr. Y Ganolfan fydd hefyd yn ymgymryd â'r dadansoddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau i flaenoriaethu'r llwybrau bws.

4.2 Mae'r holiadur yn gofyn i deithwyr pa mor aml y maent yn defnyddio'r gwasanaeth bws ar gyfer mynd i: siopa; gwaith; ysgol; gweithgareddau cymdeithasol, ac apwyntiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae hefyd yn gofyn faint mae'r gwasanaeth bws yn gwella eu bywydau o ran mynd allan a chwrdd ag eraill; cael mwy o annibyniaeth a rhyddid, a gwneud y pethau hynny sy'n eu helpu i deimlo'n gadarnhaol ac yn hapus. Yn ogystal, mae'n gofyn i deithwyr sut y byddent yn gwneud y daith pe na bai'r gwasanaeth bws yn rhedeg a faint y byddai'n ei gostio iddynt. Mae copïau Cymraeg a Saesneg o'r holiadur wedi'u cynnwys yn **Atodiadau 1 a 2**.

## ATODIAD 1

- 4.3 Mae'r holiaduron ar gael ar-lein drwy safle we'r Cyngor fel a ganlyn:
- Cymraeg: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dweud-eich-dweud/Ymgynghoriadau-byw/Arolwg-Bysiau-Lleol-Gwynedd-2019.aspx>
- Saesneg: <https://www.gwynedd.llyw.cymru/en/Council/Have-your-say/Live-consultations/Gwynedd-Local-Bus-Survey-2019.aspx>
- 4.4 Mae'r holiaduron wedi cael eu dosbarthu i lyfrgelloedd y sir, siopau, meddygfeydd, canolfannau cymunedol ac ati. Mae aelodau o'r fîm wedi bod yn teithio ar y bysiau hefyd fel y gallant gael sylwadau ac awgrymiadau teithwyr yn uniongyrchol.
- 4.5 Yn ogystal, mae cyfres o ddiwrnodau agored wedi'u trefnu yn rhai o ganolfannau'r Cyngor ledled y sir er mwyn deall beth yw anghenion ein trigolion a'u cynorthwyo i lenwi'r holiaduron. Mae'r rhaglen ar gyfer y diwrnodau agored wedi'i chynnwys yn **Atodiad 3**.
- 4.6 Mae posteri wedi cael eu cynhyrchu i godi ymwybyddiaeth am y diwrnodau agored ac maent wedi'u harddangos yn y canolfannau, siopau, canolfannau cymunedol yn ogystal â chyfnewidfeydd, gorsafoedd a llochesi bws. Mae copi o'r poster wedi'i gynnwys yn **Atodiad 4**.
- 4.7 Yn ogystal ag arddangos copïau caled o'r poster mewn gwahanol leoliadau, mae copïau electroneg ohono a'r rhaglen wedi cael eu cynnwys ar safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Facebook a Twitter er mwyn hyrwyddo'r digwyddiadau i gynulleidfa ehangach a mwy amrywiol.
- 4.8 Mae'r fîm eisoes wedi cynnal pedwar o'r diwrnodiau agored sydd ar y rhaglen, sef yng Nghanolfan Hamdden y Pafiliwn, Abermaw; Darllenfa Rhydd, Dolgellau; Canolfan Hamdden Bro Dysynni, Tywyn a Chanolfan Cymuned Llanberis.
- 4.9 Bu i 15 o drigolion fynychu'r sesiwn yn Abermaw; 38 yn Nolgellau; 11 yn Nhywyn, a 28 yn Llanberis. Fe ddaeth yn amlwg fod gan y gwahanol gymunedau eu pryderon unigryw am gludiant cyhoeddus e.e. cysylltedd rhwng trenau a bysiau yn Abermaw; cysylltedd a'r amser a gymerir i deithio rhwng y trefi a chanolfannau mawr eraill yn Nolgellau a Thywyn, a chysylltedd a phroblemau penodol gydag un cwmni bws yn Llanberis. Mae'r ymatebion a gawsom ar ôl cynnal y diwrnodau agored cyntaf yma'n argoeli'n dda i'r gweddill o'r sesiwnau.
- 4.10 Mae trafndiaeth gyhoeddus yn rhoi rhyddid i bobl o bob oed a gallu fynd i'r lleoedd sydd bwysicaf iddynt. Fodd bynnag, er y bu gwelliannau mawr i drafndiaeth gyhoeddus yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae llawer o broblemau'n dal i fodoli sy'n gwneud teithio, yn enwedig i bobl anabl, yn anhygyrch. Mae'r problemau hyn yn achosi i lawer o bobl deimlo eu bod wedi'u heithrio'n gymdeithasol. O ganlyniad, mae'r fîm wedi ymweld ag Antur Waunfawr ym Mryn Pistyll, Caergyfchu a'r Warws Werdd, yn ogystal â Menter Fachwen yng Nghwm y Glo, i geisio deall pa rwystrau sy'n atal pobl anabl rhag defnyddio cludiant cyhoeddus. Roedd y neges yn glir; maent yn dibynnu ar y gwasanaethau bws i'w galluogi i fynd i'r gwaith, i gymdeithasu ac yn gyffredinol i fyw bywyd annibynnol fel nad ydynt wedi'u heithrio o gymdeithas.
- 4.11 Hyd yma, mae dros 1300 o drigolion wedi cwblhau'r holiadur ar-lein, ac mae dros 400 wedi cychwyn ei lenwi ond heb ei gwblhau eto. Nod yr Adran yw cael dros 2000 o'r holiaduron wedi'i llenwi (boed hynny ar-lein, yn ystod y dyddiau agored neu drwy'r post) erbyn y dyddiad cau, sef diwedd mis Ebrill, fel y cawn fewnwelediad ystyrlon, perthnasol a chywir i beth yw anghenion ein trigolion.

## ATODIAD 1

### 5. Y CAM NESAF

- 5.1 Unwaith y bydd yr holl holiaduron wedi'u derbyn yn ôl, bydd yr Adran, ar y cyd â Phrifysgol Bangor, yn dadansoddi'r canlyniadau ac, ynghyd ag amrywiaeth o randdeiliaid, yn datblygu strategaeth ar gyfer cyflawni amcanion yr adolygiad gyda gwerth cymdeithasol ychwanegol.
- 5.2 Bydd y Pennaeth Adran yn adrodd ar ganfyddiadau'r cam ymgysylltu ac ymgynghori i'r Pwyllgor Craffu a Chabinet y Cyngor cyn cychwyn edrych ar baratoi rhwydwaith newydd o fewn y sir.